# Polisi Cydraddoldeb, Hil a Chyfle Cyfartal

# Ysgol Gynradd Gymraeg Y Login Fach

*Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r plentyn wrth wraidd cynllunio, polisiau, arfer ac ethos ein hysgol. Fel ysgol sy'n parchu hawliau, nid yn unig yr ydym yn addysgu am hawliau plant ond rydym hefyd yn modelu hawliau a pharch ym mhob perthynas – cysylltiedig ag erthyglau 2, 6, 13, 34.*

## 1 Datganiad polisi cyffredinol

Mae Ysgol Gymraeg Y Login Fach yn ymroddedig i weithio tuag at gydraddoldeb hil, hyrwyddo agweddau cadarnhaol at wahaniaeth a meithrin parch at bobl o bob cefndir diwylliannol. Mae'r ysgol yn gwrthwynebu pob ffurf ar ragfarn a gwahaniaethu hiliol. Ni oddefir iaith nac ymddygiad hiliol a allai niweidio unrhyw grŵp ethnig neu hiliol. Mae'r ysgol yn cydnabod bod gan Gymru a'r DU gymunedau amrywiol sy'n cynnwys pobl o gefndiroedd hiliol, diwylliannol, crefyddol ac ieithyddol amrywiol. Mae'n bwysig bod pob disgybl yn barod i fyw mewn cymdeithas mor amrywiol. Mae cyfrifoldeb ar bob gweithiwr i ddarllen a deall y polisi hwn a chydymffurfio ag ef.

## 2 Cyfrifoldebau

**Corff Llywodraethu**

- Mae'r corff llywodraethu'n gyfrifol am sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio â deddfwriaeth cysylltiadau hiliol, gan gynnwys y dyletswyddau cyffredinol a phenodol yn neddf ddiwygiedig 2000.
- Gyda chymorth y pennaeth, mae gan y corff llywodraethu gyfrifoldeb dros roi ffyrdd priodol o weithredu ar waith i alluogi'r ysgol i gadw at y polisi cydraddoldeb hil hwn.
- Bydd y corff llywodraethu'n cynnwys materion cydraddoldeb hil fel eitem reolaidd ar agenda cyfarfodydd y corff llywodraethu a bydd ganddo lywodraethwr a enwir ar gyfer cydraddoldeb, sef y pennaeth.

**Pennaeth**

- Mae gan y pennaeth gyfrifoldeb cyffredinol, gyda'r corff llywodraethu, dros roi ffyrdd priodol o weithredu ar waith i alluogi'r ysgol i gadw at y polisi cydraddoldeb hil hwn.
- Bydd y pennaeth yn sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant perthnasol ac yn cael gwybod am oblygiadau'r polisi, gan gynnwys y ddeddfwriaeth berthnasol.

**Person a Enwir ar gyfer Achosion Hiliol**

- Y person a enwir ar gyfer achosion hiliol yw'r Mrs Katrin Parkhouse y Pennaeth
- Bydd y pennaeth yn sicrhau bod pob achos hiliol a adroddir amdano yn cael ei gofnodi mewn cofrestr ac y bydd ffurflen Rhoi Gwybod am Achos Hiliol yr awdurdod yn cael ei lenwi a'i hanfon at yr AALl.

**Person a Enwir ar gyfer Cydraddoldeb**

- Y person a enwir ar gyfer cydraddoldeb neu gyfle cyfartal yw'r Mrs Katrin Parkhouse, y Pennaeth.
- Bydd y person a enwir ar gyfer cydraddoldeb yn sicrhau bod yr ysgol yn adolygu ac yn gwerthuso pob polisi ac arfer mewn perthynas â chydraddoldeb hil.
- Bydd targedau ar gyfer gwella'n cael eu pennu i fynd i'r afael ag agweddau ar anghydraddoldeb neu anfantais sy'n dod i'r amlwg trwy adolygu cynnydd rheolaidd.

**Cydlynydd ABCh**

- Y cydlynydd Iechyd a Lles yw Miss Sian Howells.
- Bydd y cydlynydd ABCh yn sicrhau yr ymdrinnir â materion hil ac amrywiaeth diwylliannol wrth roi'r fframwaith ABCh ar waith trwy'r ysgol, gan ddatblygu agweddau a gwerthoedd sy'n hyrwyddo dealltwriaeth o amrywiaeth a chydraddoldeb sy'n annog perthnasoedd cadarnhaol, iach ac sy'n herio hiliaeth.

**Cydlynydd A.G.**

- Y cydlynydd Addysg.Grefyddol(Dyniaethau) yw Mrs Eleri Lewis-Jones.
- Bydd y cydlynydd Addysg Grefyddol yn sicrhau yr addysgir pob crefydd mewn ffordd gadarnhaol, gytbwys, bod safbwyntiau gwahanol bob amser yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu ac nid yw barn ystrydebol am grwpiau ffydd penodol yn parhau am byth, ond yn cael ei harchwilio mewn modd gwrthrychol, perthnasol.

**Staff Addysgu**

- Mae'r staff addysgu'n gyfrifol am wybod y diweddaraf am ddeddfwriaeth cysylltiadau hil a materion cydraddoldeb.
- Bydd y staff addysgu'n gwybod sut mae mynd i'r afael ag achosion hiliol yn yr ystafell ddosbarth, sut mae hyrwyddo amrywiaeth a sut mae nodi a herio tueddfryd ac ystrydebu.
- Bydd y staff addysgu'n annog perthnasoedd gwaith cadarnhaol rhwng disgyblion a sicrhau bod disgyblion o bob grŵp hiliol ac ethnig yn cael eu cynnwys ym mhob gweithgaredd ac y byddant yn cael mynediad i'r cwricwlwm.
- Ni fydd y staff addysgu'n gwahaniaethu, nac yn caniatáu i deimladau personol, rhagfarn neu ragdybiaeth am grwpiau hiliol neu ethnig effeithio ar sut maent yn trin disgyblion, rhieni na staff eraill.

**Staff cefnogi (gan gynnwys yr holl staff gweinyddol, goruchwylwyr amser cinio a gofalwyr)**

- Bydd y staff cefnogi'n sicrhau na fyddant yn gwahaniaethu wrth gynnal eu swyddogaethau, nac yn caniatáu i deimladau personol, rhagfarn, rhagdybiaeth nac ystrydebau am grwpiau hiliol neu ethnig effeithio ar sut maent yn trin disgyblion penodol, rhieni neu staff eraill.

**Ymwelwyr a chontractwyr sy'n gweithio ar y safle**

- Bydd yr holl ymwelwyr neu gontractwyr sy'n gweithio ar y safle'n cael gwybod am bolisi'r ysgol ar gydraddoldeb hil ac achosion o aflonyddu hiliol.

## 3 Ymgynghori

- Ymgynghorir â llywodraethwyr, staff, disgyblion, rhieni a grwpiau cymunedol mewn perthynas â chyflwyno'r polisi hwn a diwygiadau dilynol.

## 4 Cyfathrebu

- Mae'r polisi:
  - wedi'i amlinellu yn yr ysgol
  - ar gael ar gais i rieni, ymwelwyr ac aelodau'r gymuned ehangach

  Gwneir pob ymdrech i ddarparu cyfieithiad.

## Rhoi'r polisi ar waith - Ethos ysgol gyfan

**Dathlu a hyrwyddo amrywiaeth**
Byddwn yn sicrhau y diwellir anghenion penodol yr holl grwpiau ethnig a chrefyddol yn yr ysgol trwy ddathlu amrywiaeth, darparu ar gyfer gofynion deietegol a gwisg grwpiau crefyddol gwahanol a chaniatáu i ddisgyblion ufuddhau i ddathliadau a gwyliau crefyddol amrywiol.

**Paratoi at fyw mewn cymdeithas aml-ethnig**
Byddwn yn annog pob disgybl i ddeall, parchu a gwerthfawrogi pobloedd, diwylliannau, ieithoedd a ffydd anghyfarwydd iddynt er mwyn eu paratoi at fyw mewn cymdeithas aml-ethnig.

**Cyfansoddiad ethnig yr ysgol**
Bydd yr ysgol yn casglu data priodol i lywio'i dealltwriaeth o'r amrywiaeth o gefndiroedd ethnig, ieithyddol a chrefyddol sydd gan y disgyblion er mwyn cynorthwyo wrth roi'r polisi hwn ar waith.

## Cyrhaeddiad disgyblion, datblygiad personol ac asesiad

**Cyrhaeddiad a chynnydd**
Ein nod yw sicrhau bod pob disgybl yn cyflawni i'w botensial llawn. Byddwn yn monitro cynnydd disgyblion unigol ar gyfer arwyddion o dangyflawniad ac yn defnyddio monitro ethnig i nodi unrhyw wahaniaeth rhwng perfformiad grwpiau ethnig. Ymdrinnir â'r rhain trwy gefnogaeth wedi'i chynllunio a'i thargedu.

**Cefnogaeth fugeiliol**
Bydd ein cefnogaeth fugeiliol yn ystyried gwahaniaethau crefyddol ac ethnig a phrofiadau plant ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

**Cefnogaeth i ddisgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol**
Byddwn yn darparu cefnogaeth briodol i ddisgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt ac yn annog disgyblion i ddefnyddio a datblygu eu hieithoedd cartref, lle bo'n bosibl. Bydd mynediad i gefnogaeth arbenigol.

**Gyrfaoedd a phrofiad gwaith (lle bo'n briodol)**

Byddwn yn annog pob disgybl i ystyried yr amrywiaeth cyfan o opsiynau profiad gwaith ac opsiynau eraill ar ôl gadael yr ysgol er mwyn sicrhau nad ystradebir grwpiau ethnig neu hiliol.

## Asesiad

Byddwn yn sicrhau na fydd disgyblion lleiafrifoedd ethnig y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a phlant ffoaduriaid a cheiswyr lloches dan anfantais trwy ragfarn ddiwylliannol ac ieithyddol neu ddiffyg cefnogaeth mewn asesiadau.

**Anghenion Addysgol Arbennig**
Byddwn yn sicrhau y gwneir asesiadau cywir o anghenion addysgol arbennig ar gyfer disgyblion lleiafrifoedd ethnig y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt ac i blant ffoaduriaid a cheiswyr lloches fel y bo'n briodol.

## Cwricwlwm, addysgu ac adnoddau

**Dysgu ac addysgu**
Byddwn yn cymryd camau cadarnhaol i sicrhau y gall pob disgybl gymryd rhan a theimlo bod ei gyfraniadau'n cael eu gwerthfawrogi. Byddwn yn annog disgyblion o bob cefndir i weithio gyda'i gilydd gyda chydweithrediad a dealltwriaeth, gan ddysgu trwy brofiadau amrywiol ei gilydd. Bydd ein haddysgu'n herio rhagfarn ac ystrydebau hiliol, ac yn meithrin ymwybyddiaeth ddiwylliannol disgyblion o ragfarn, anghydraddoldeb ac anghyfiawnder.

**Hyrwyddo amrywiaeth diwylliannol trwy'r cwricwlwm**
Byddwn yn hyrwyddo amrywiaeth diwylliannol yn y cwricwlwm trwy addysgu cynnwys cadarnhaol, diwylliannol amrywiol, a thrwy feithrin parch at bobl o grwpiau hiliol, ethnig a chrefyddol gwahanol.

**Mynediad i'r cwricwlwm**
Byddwn yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod pob disgybl yn cael mynediad i'r cwricwlwm prif ffrwd trwy ystyried ei gefndir diwylliannol a'i anghenion ieithyddol a thrwy wahaniaethu gwaith yn briodol.

**Adnoddau**
Bydd ein hadnoddau a'n harddangosfeydd yn portreadu delweddau cadarnhaol o amrywiaeth o bobloedd a diwylliannau ac yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau i herio ystrydebau a hiliaeth ar draws y cwricwlwm.

**Cynnwys pobl o gefndiroedd amrywiol**

Gwneir pob ymdrech i wahodd ymwelwyr o grwpiau crefyddol, ethnig, ieithyddol a ffydd gwahanol i'r ysgol i rannu amrywiaeth o sgiliau a phrofiadau.

## Derbyniadau a phresenoldeb

### Derbyniadau

Bydd ein meini prawf a'n gweithdrefnau derbyn yn deg ac yn gyfartal i bawb ac ni fyddant yn cael effaith anfanteisiol ar unrhyw grŵp hiliol neu ethnig.

### Presenoldeb

Byddwn yn disgwyl presenoldeb da gan bob disgybl a byddwn yn monitro presenoldeb yn ôl grŵp ethnig. Byddwn yn cydnabod hawl disgyblion i gymryd amser bant ar gyfer defodau crefyddol a byddwn yn darparu ar gyfer disgyblion sydd ar wyliau estynedig i wneud gwaith a gollwyd.

## Ymddygiad, disgyblaeth a gwahardd

### Hiliaeth, gwahaniaethu ac aflonyddu

Rydym yn gwrthwynebu pob ffurf ar ragfarn a gwahaniaethu hiliol. Ni oddefir iaith neu ymddygiad hiliol. Ymdrinnir â phob achos yn unol â pholisïau perthnasol yr ysgol a chanllawiau'r AALl ar aflonyddu hiliol.

### Ymddygiad a disgyblaeth

Rydym yn disgwyl safonau ymddygiad uchel gan bob disgybl. Bydd pob disgybl yn cael ei drin yn deg a heb wahaniaethu wrth gael ei ddisgyblu. Ymdrinnir ag achosion o natur hiliol yn gadarn ac yn gyson a bydd pob honiad o aflonyddu neu bryfocio hiliol yn cael ei archwilio'n llwyr a'i gofnodi a rhoddir gwybod amdano i'r AALl.

### Gwahardd

Byddwn yn cymryd camau rhagweithiol i atal gwahardd ac yn sicrhau bod gwaharddiadau'n cael eu monitro'n ôl grŵp ethnig.

## Partneriaeth â rhieni a'r gymuned ehangach

### Partneriaeth â rhieni a'r gymuned ehangach

Byddwn yn defnyddio arbenigedd, sgiliau a gwybodaeth pobl o gefndiroedd hiliol, ethnig, ieithyddol a ffydd gwahanol i ddatblygu agweddau cadarnhaol at amrywiaeth diwylliannol ac i herio hiliaeth. Bydd rhieni o bob grŵp hiliol ac ethnig yn cael eu hannog i gymryd rhan ym mywyd yr ysgol. Lle bo angen, bydd gwasanaethau cyfieithu a dehongli'n cael eu defnyddio.

## Recriwtio staff a datblygiad proffesiynol

**Recriwtio a hyrwyddo**
Byddwn yn sicrhau na fydd dim gwahaniaethu ar sail hiliol wrth recriwtio a hyrwyddo.

**Datblygiad proffesiynol**
Byddwn yn sicrhau bod yr holl staff a llywodraethwyr yn cael hyfforddiant cychwynnol a pharhaol er mwyn deall materion cydraddoldeb hiliol a sut i ymdrin â nhw.

**Gwahaniaethu ac aflonyddu**
Ymdrinnir ag achosion o wahaniaethu neu aflonyddu hiliol sy’n cynnwys staff yn unol â gweithdrefnau disgyblu a chwyno a chanllawiau aflonyddu hiliol yr AALl/ysgol.

**Tor polisi**
Ymdrinnir ag unrhyw dor o’r polisi hwn gan aelodau staff neu lywodraethwyr yn unol â gweithdrefnau disgyblu a chwyno’r AALl/ysgol.

## Cynllunio ac adolygu polisi

**Monitro ethnig**
Byddwn yn defnyddio data monitro ethnig ar gyflawniad wrth gynllunio’r cwricwlwm ac wrth bennu targedau ar gyfer addysgu. Bydd data monitro ethnig ar dderbyniadau, presenoldeb a gwaharddiadau hefyd yn cael ei ystyried wrth gynllunio yn y tymor hir.

**Gwerthuso, monitro ac adolygu polisïau**
Bydd effaith pob polisi ysgol ar ddisgyblion, staff, llywodraethwyr a rhieni lleiafrifoedd ethnig yn cael ei hasesu i sicrhau nad oes dim arfer gwahaniaethol, yn enwedig arfer gwahaniaethol a allai gyfrannu i dangyflawniad disgyblion lleiafrifoedd ethnig. Bydd effaith y polisi cydraddoldeb hil ar yr holl ddisgyblion, staff, llywodraethwyr a rhieni’n cael ei monitro’n flynyddol ar gyfer ei heffeithiolrwydd a bydd gwerthusiadau’n ystyried barn yr holl rhanddeiliaid.

Llofnod: ___________________________ ___________________________
(Pennaeth)

Dyddiad: _____31/3/2025________________________